

**TORFAEN
COUNTY
BOROUGH**



**BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN**

Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021

Cydymffurfiad â Safonau'r Iaith Gymraeg

Paratowyd yn unol â gofynion

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011



Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Cefndir	3
3.	Cydymffurfiad	4
	<ul style="list-style-type: none">• Safonau Cyflenwad Gwasanaeth• Safonau Gwneud Polisi• Safonau Gweithredu• Cwynion• Sgiliau'r Iaith Gymraeg• Hyfforddiant Iaith Gymraeg• Recriwtio	
4.	Casgliadau	13

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymdrechu i wella ansawdd y gwasanaethau y mae'n darparu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r graddau y maen nhw ar gael.

Trwy gydol 2020/21, mae'r tîm wedi gweithio'n ddiflino i godi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau ar draws holl adrannau'r Cyngor. Bydd cyflwyno Fframwaith Derbyn Corfforaethol newydd yn sicrhau bod pwysigrwydd gofynion rheoleiddiol a moesegol yr iaith Gymraeg yn rhan o broses derbyn cyflogion newydd.

Mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud gyda sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor gyda'r bwriad o wella ansawdd eu gwasanaethau Cymraeg a'r graddau y maen nhw ar gael.

Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno'n cydymffurfriad â'r Safonau ac yn cyflwyno'r data angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Rydym yn cydnabod ein bod wedi gwneud cynnydd cyson ond bod yna welliannau pellach i'w gwneud er mwyn gwella'n gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Cyflwynwyd yr adroddiad yma i'r Cyngor llawn ac mae'n sicrhau fod Aelodau Etholedig yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldebau corfforaethol a rhwymedigaethau statudol yn y Safonau.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol, wedi'i gymeradwyo, yn cael ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor (www.torfaen.gov.uk), o dan adran yr iaith Gymraeg a bydd ar gael mewn swyddfeydd lleol ble mae mynediad i'r cyhoedd, erbyn 30 Mehefin 2021 fan bellaf.

2. Cefndir

Cynhyrchir yr Adroddiad Blynyddol hwn dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015. O dan y fframwaith cyfreithiol mae gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen adrodd ar bum maes statudol.

Meysydd	Safon a/neu Is-adran Berthnasol
Cydymffurfiad	158, 164, 170
Cwynion	147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)
Sgiliau'r Iaith Gymraeg	170 (2) (a), 151
Hyfforddiant Iaith Gymraeg	170 (2) (b) (c), 152
Recriwtio	170 (2) (ch), 154

Ceir manylion Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor o fewn yr Hysbysiad Cydymffurfio dyddiedig 30 Medi 2015. Mae'r cyngor yn ddarostyngedig i 170 o Safonau sydd wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Cydymffurfio. Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gael [yma](#)

Mae gan y Tîm Partneriaethau, Polisi a Chydraddoldebau, dan gyfarwyddiaeth yr Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus, ar hyn o bryd bedwar aelod staff yn gweithio ar gyflawni gwaith Iaith Gymraeg corfforaethol ar ran y Cyngor.:

Swyddog yr Iaith Gymraeg
Cydgysylltydd Cyfieithu Cymraeg
Cyfieithwyr yr Iaith Gymraeg (x 2)

Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus
Tîm Partneriaethau, Polisi a Chydraddoldebau
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl
Torfaen, NP4 6YB

Ffôn: (01495) 766096

Yr Aelod Gweithredol a benodwyd ar gyfer Llywodraeth Gorfforaethol a Pherfformiad (gan gynnwys yr Iaith Gymraeg) ar gyfer 2020/21 oedd y Cyng. David Yeowell

3. Cydymffurfiad

Cyhoeddwyd canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ar fewnrwyd y Cyngor.

Safonau Cyflenwad Gwasanaeth

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2020/21	Camau i'w cymryd yn ystod 2021/22
Safonau 1 - 7 Gohebiaeth a ddanfonwyd ac a dderbyniwyd	Mae staff wedi cael eu hatgoffa am y gofynion trwy gyfarwyddyd i staff. Monitro gweithdrefnau adrannol i sicrhau cydymffurfiad	Rhoi cyfarwyddyd pellach ar ôl cwyn a dderbyniwyd gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg Ymchwilio i'r defnydd o gyfeiriadau e-bost iaith Gymraeg a ddefnyddiwyd ar ohebiaeth
Safonau 8 - 22 Galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd	Yn ystod y pandemig, mae wedi bod yn anodd monitro'r cyfarchiad dwyieithog corfforaethol wrth ateb galwadau. Adolygu negeseuon peiriant ateb a recordiwyd i sicrhau cydymffurfiad Yn ystod 2020/2021 derbyniodd prif ganolfan alwadau'r Cyngor gyfanswm o 129,971 o alwadau. Dewisodd 1.51% (1,975 o alwadau) o'r galwadau hyn yr opsiwn Cymraeg.	Rhoi cyngor ar ymdrin ag ymholiadau ar y ffôn yn Gymraeg
Safonau 24 - 36 Cyfarfodydd gyda'r Cyhoedd	Yn ystod y pandemig, mae pob cyfarfod wedi bod trwy gyfrwng Microsoft Teams (gofyniad Corfforaethol). Oherwydd y cyfyngiadau o fewn Teams (h.y. cyfieithu ar y pryd) nid yw wedi bod yn bosibl cynnal rhai cyfarfodydd yn Gymraeg	Parhau i weithio gyda'n darparwyr Technoleg Gwybodaeth i gael ateb amgen, a/neu fonitro unrhyw uwchraddiadau i Microsoft Teams
Safonau 37 - 51, 69 - 70 Dogfennau dwyieithog eraill	Gweithio'n agos gyda'n Tîm Cyfathrebu (sy'n cynhyrchu mwyafrif ein cyhoeddiadau) i sicrhau cydymffurfiad a'r safonau	Hyrwyddo canllaw dylunio Comisiynydd y Gymraeg fel arfer da.

<p>Safonau 52 - 60 Gwefannau, Cyfryngau Cymdeithasol ac Apiâu, a Pheiriannau Hunanwasanaeth</p>	<p>Fe gafodd tudalennau Cymraeg y wefan gorfforaethol 6,260 o ymweliadau yn ystod 2020/21, o gymharu â 2,265,272 o ymweliadau a'r tudalennau Saesneg.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi sicrhau fod unrhyw gynnwys newydd a ychwanegwyd i Ap Torfaen yn ddwyieithog o'r cychwyn</p>	<p>Sicrhau bod pob gwefan sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu diweddarau</p>
<p>Safonau 61 - 63 Arwyddion</p>	<p>O'r 7 o ddatblygiadau tai newydd yn ystod 2020/21, cymeradwywyd enwau Cymraeg ar gyfer 6 (86%) o'r rheiny.</p> <p>Nid yw arwyddion sy'n bodoli eisoes yn cael eu cyfieithu.</p>	<p>Sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Monitro adnewyddiad swyddfeydd y Cyngor i sicrhau cydymffurfiad</p>
<p>Safonau 64 - 68 Gwasanaethau'r Dderbynfa</p>	<p>Mae derbynfeydd nawr yn rhan o gyfarwyddiaeth yr Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus.</p> <p>Yn ystod y pandemig, mae nifer o dderbynfeydd wedi bod ar gau i'r cyhoedd.</p>	<p>Wrth i gyfyngiadau lacio, sicrhau bod pob derbynfa'n cydymffurfio</p>
<p>Safonau 71 - 75 Rhoi Grantiau</p>	<p>Rhodddwyd cyfarwyddyd ar ddyrannu grantiau</p>	<p>Monitro ar gyfer cydymffurfiaid</p>
<p>Safonau 76 - 80 Rhoi Cytundebau</p>	<p>Mae pob gwahoddiad caffael yn cynnwys elfen sgorio ar yr iaith Gymraeg.</p> <p>Mae gwaith yn cael ei wneud i edrych ar gytundebau nad ydynt yn rhan o'r broses dendro, ond a all fod yn ddarostyngedig i'r Safonau.</p>	<p>Parhau i weithio gyda darparwyr trydydd parti ynglŷn â gofynion yr iaith Gymraeg</p>
<p>Safonau 81 - 82 Hyrwyddo Gwasanaethau laith Gymraeg</p>	<p>Cyhoeddwyd cyfarwyddyd arfer gorau ar hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg</p>	<p>Diweddarau cyfarwyddyd ar hyrwyddo gwasanaethau</p>
<p>Safon 83 Hunaniaeth Gorfforaethol</p>	<p>Mae hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn ddwyieithog.</p>	<p>Monitro ar gyfer cydymffurfiaid</p>

Safonau 84 a 86 Cyrsgol Addysgol	Hysbysebwyd cyrsiau a gynigiwyd, a chynigiwyd dewis iaith. Mae'r cyrsiau i gyd yn cael eu hasesu o ran niferoedd sy'n bresennol a chyflenwad.	Sicrhau bod cyrsiau nad ydynt yn mynd ymlaen oherwydd niferoedd isel yn cael cynnig dewis amgen.
Safon 87 Systemau Cyhoeddiadau Cyhoeddus	Mae cyhoeddiadau a wneir ym mhob liffy yn Swyddfeydd y Cyngor yn ddwyieithog.	Monitro ar gyfer cydymffurfiad

Safonau Lluo Polisi

Cyhoeddir canllawiau a dehongliad y Cyngor ar ofynion y Safonau Lluo Polisi ar fewnwyd y Cyngor.

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2020/21	Camau i'w cymryd yn ystod 2021/22
Safonau 88 - 93	Mae asesiad effaith integredig y Cyngor, sy'n gysylltiedig â'r 7 nod llesiant cenedlaethol, yn dal i fod yn declyn effeithiol Mae gan Uned yr Iaith Gymraeg drosolwg o bob penderfyniad polisi sy'n gofyn am asesiad effaith integredig cyn ei gyflwyno gerbron yr Aelodau Etholedig	Parhau i gefnogi'r broses cymeradwyo polisi

Safonau Gweithredu

Cyhoeddir canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Gweithredu ar fewnwyd y Cyngor.

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2020/21	Camau i'w cymryd yn ystod 2021/22
Safonau 99 – 104 Dogfennau Cyflogaeth	Mae dogfennau electronig AD i gyd yn ddwyieithog Mae'r system awtomataidd ar gyfer trefnu gwyliau / absenoldeb, treuliau ac arfarnu staff, yn dal i fod yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd.	Monitro i sicrhau cydymffurfiad
Safonau 105 – 111 Polisiâu Adnoddau Dynol	Mae holl bolisiau AD y Cyngor yn cael eu darparu yn Gymraeg ar fewnwyd y staff (SWOOP).	Monitro i sicrhau cydymffurfiad
Safonau 112 – 119 Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu;	Mae 10 (0.6%) o gyflogeion wedi nodi mai Cymraeg yw iaith eu dewis ar gyfer cyfathrebu	Cynyddu nifer y staff sy'n cwblhau eu hasesiad sgiliau iaith
Safonau 120 - 125 Mewnwyd y Staff ac Adnoddau TG	Mae'r Cyngor yn parhau i drwyddedu pob cyfrifiadur gyda meddalwedd Cysgliad	Gweithio gyda darparwyr Technoleg Gwybodaeth i osod y 'pecyn iaith' Cymraeg ar bob cyfrifiadur Diweddarau'r holl adnoddau ar dudalennau Cymraeg y fewnwyd
Safon 127 Sgiliau Iaith Staff	Gwelwch yr adran ar <i>Sgiliau'r Iaith Gymraeg</i>	Cynyddu nifer y staff sy'n cwblhau eu hasesiad sgiliau iaith
Safonau 128 - 133 Hyfforddi staff	Gwelwch yr adran ar <i>Sgiliau'r Iaith Gymraeg</i> Ni ddaeth unrhyw staff i'r hyfforddiant AD a gynigiwyd yn Gymraeg Yn ystod 2020/2021, cafodd 14 o gyflogeion hyfforddiant iaith Gymraeg	Parhau i hyrwyddo dysgu Cymraeg fel sgil gwerthfawr

<p>Safonau 134 - 135 Geiriad a Logo ar gyfer Llofnod E-byst Staff</p>	<p>Atgoffir pob aelod o'r staff, trwy eu rheolwyr llinell, i gael llofnod e-bost dwyieithog yn unol â safonau corfforaethol.</p> <p>Mae logo "Cymraeg Gwaith" ar gael i staff ei lawrlwytho ar y fewnwyd.</p>	<p>Diweddarau'r holl adnoddau ar dudalennau Cymraeg y fewnwyd</p>
<p>Safonau 136 - 140 Y Broses Recriwtio</p>	<p>Gwelwch yr adran ar <i>Recriwtio</i></p>	<p>Profion sampl o swyddi o sicrhau fod Rheolwyr yn asesu anghenion iaith swyddi'n gywir. Rhoi canllawiau os oes angen</p>
<p>Safonau 141 - 143 Arwyddion Mewnol</p>	<p>Ail-roi canllawiau ar arwyddion newydd ac wedi eu hailosod.</p>	<p>Monitro adnewyddiad swyddfeydd y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaid</p>
<p>Safon 144 Cyhoeddiadau'r Gweithle</p>	<p>Mae cyhoeddiadau a wneir ym mhob liff yn swyddfeydd y Cyngor yn ddwyieithog</p>	<p>Parhau i fonitro</p>

Cwynion

Mae pob cwyn a dderbynnir gan drigolion trwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn unol â pholisi cwyno corfforaethol y Cyngor. Caiff cwynion eu categorio dan dri cham

- **Cam 1** - Datrys cwyn yn anffurfiol o fewn 10 diwrnod gwaith
- **Cam 2** - Cwyn Cam 1 sydd wedi ei chyfeirio at swyddog uwch neu gŵyn sy'n ymwneud â mwy nag un maes gwasanaeth. Caiff cwynion eu harchwilio'n ffurfiol a chânt ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.
- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus / Comisiynydd y Gymraeg** - Cwyn Cam 2 sydd wedi ei chyfeirio at swyddog neu gorff uwch a all gael arolwg annibynnol ar ran yr achwynydd. Byddai'r Ombwdsmon yn disgwyl i'r achwynydd fod wedi defnyddio proses gwyno lawn y Cyngor cyn cysylltu, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. O dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru), mae Comisiynydd yr Iaith yn medru derbyn cwynion a anfonir yn uniongyrchol i swyddfa'r Comisiynydd ac ymchwilio ar eu rhan, os tybir bod y gŵyn yn un ddilys.

Yn ystod 2018/2019, ni dderbyniwyd cwyn. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd ym mhob cam:

Cam 1:	Cam 2:	Comisiynydd y Gymraeg
0	0	0

Cam 1:

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol gan y cyhoedd.

Comisiynydd y Gymraeg

Ni chafodd unrhyw ymchwiliadau eu gwneud gan Gomisiynydd y Gymraeg

Sgiliau'r Iaith Gymraeg

Am flynyddoedd lawer mae'r Cyngor wedi casglu data ar sgiliau iaith ei staff. Hyd at fis Mawrth 2016 casglwyd y wybodaeth hon drwy'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Mae'r Cyngor wedi datblygu'r porthol cyflogeion Adnoddau Dynol (iFOR) i ddal, cofnodi ac adrodd ar sgiliau iaith staff, yn y modiwl dysgu a datblygu, ble gall staff ddiweddarau eu sgiliau yn ôl y gofyn. Dyma'r data diweddaraf ar Sgiliau iaith Gymraeg

Mae'r tabl isod yn dangos pob maes gwasanaeth a lefel y rhuglder gan ddefnyddio'r graddfeydd ALTE.

0 = Dim sgiliau iaith Gymraeg

5 = Medrus

Adran	Nifer y staff â sgiliau iaith Gymraeg	Nifer y staff heb sgiliau iaith Gymraeg	Canran y staff â sgiliau iaith Gymraeg
Sefydliad Cyfan	Cyfanswm = 251 Lefel 1 = 183 Lefel 2 = 26 Lefel 3 = 10 Lefel 4 = 12 Lefel 5 = 20	Cyfanswm = 1,496 Lefel 0	Cyfanswm = 14% Lefel 1 = 10% Lefel 2 = 1% Lefel 3 = 1% Lefel 4 = 1% Lefel 5 = 1%
Gwasanaethau Addysg	Cyfanswm = 71 Lefel 1 = 62 Lefel 2 = 2 Lefel 3 = 1 Lefel 4 = 0 Lefel 5 = 6	Cyfanswm = 92 Lefel 0	Cyfanswm = 44% Lefel 1 = 38% Lefel 2 = 1% Lefel 3 = 1% Lefel 4 = 0% Lefel 5 = 4%
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	Cyfanswm = 33 Lefel 1 = 19 Lefel 2 = 6 Lefel 3 = 2 Lefel 4 = 3 Lefel 5 = 3	Cyfanswm = 159 Lefel 0	Cyfanswm = 17% Lefel 1 = 10% Lefel 2 = 3% Lefel 3 = 1% Lefel 4 = 2% Lefel 5 = 2%
Gwasanaethau Cymdogaeth a Rheoleiddiol	Cyfanswm = 37 Lefel 1 = 25 Lefel 2 = 3 Lefel 3 = 2 Lefel 4 = 4 Lefel 5 = 3	Cyfanswm = 490 Lefel 0	Cyfanswm = 7% Lefel 1 = 5% Lefel 2 = 1% Lefel 3 = 0% Lefel 4 = 1% Lefel 5 = 1%
Gofal Cymdeithasol a Thai	Cyfanswm = 33 Lefel 1 = 21 Lefel 2 = 4 Lefel 3 = 2 Lefel 4 = 3 Lefel 5 = 3	Cyfanswm = 459 Lefel 0	Cyfanswm = 7% Lefel 1 = 4% Lefel 2 = 1% Lefel 3 = 0% Lefel 4 = 1% Lefel 5 = 1%

Prif Weithredwr	Cyfanswm = 35 Lefel 1 = 25 Lefel 2 = 5 Lefel 3 = 3 Lefel 4 = 1 Lefel 5 = 1	Cyfanswm = 100 Lefel 0	Cyfanswm = 26% Lefel 1 = 19% Lefel 2 = 4% Lefel 3 = 2% Lefel 4 = 1% Lefel 5 = 1%
Gwasanaeth Adnoddau a Rennir	Cyfanswm = 31 Lefel 1 = 25 Lefel 2 = 5 Lefel 3 = 0 Lefel 4 = 1 Lefel 5 = 0	Cyfanswm = 172 Lefel 0	Cyfanswm = 15% Lefel 1 = 12% Lefel 2 = 2% Lefel 3 = 0% Lefel 4 = 0% Lefel 5 = 0%
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus	Cyfanswm = 11 Lefel 1 = 6 Lefel 2 = 1 Lefel 3 = 0 Lefel 4 = 0 Lefel 5 = 4	Cyfanswm = 18 Lefel 0	Cyfanswm = 38% Lefel 1 = 21% Lefel 2 = 3% Lefel 3 = 0% Lefel 4 = 0% Lefel 5 = 14%

Hyfforddiant iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn cynnal nifer o gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg, gyda'r bwriad o gynyddu gallu siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad a datblygu hyder staff sy'n gyndyn o ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Mae'r cyrsiau i gyd yn cael eu hariannu'n ganolog. Yn ystod 2020/2021, aeth 14 o gyflogeion i hyfforddiant iaith Gymraeg

O dan Safon 128, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant Cymraeg i staff yn y meysydd canlynol, os ydynt yn cael eu cynnig yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu;
- Cyfnod sefydlu;
- Delio gyda'r cyhoedd; a
- Iechyd a diogelwch.

Darparwyd hyfforddiant mewn rhai o'r meysydd hyn yn ystod 2020/21, cynigwyd, yn y gwahoddiad, ddewis iaith i'r rhai a fynychodd. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Recriwtio

Yn ystod 2020/21, hysbysebwyd **334** o swyddi newydd neu wag gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Roedd nifer y swyddi yn y categori a oedd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg fel a ganlyn:

Categori	Nifer y swyddi a gategoreiddiwyd	Canran y swyddi a gategoreiddiwyd
Hanfodol	12	3.59 %
Dymunol	3	0.90 %
Angen dysgu	0	0%
Dim angen sgiliau Cymraeg	319	95.51 %

Fel rhan o'r broses recriwtio, ac fel gofyniad dan Safon 136, rhaid asesu pob swydd o ran ei sgiliau iaith Gymraeg.

4. Casgliad

COVID-19

Roedd 2020/21 yn flwyddyn eithriadol, pan aildrefnwyd adnoddau'r cyngor i helpu gyda rheoli'r pandemig a blaenoriaethu gwasanaethau hanfodol i'r mwyaf bregus, gan barhau ar yr un pryd i gyflenwi'n gwasanaethau dydd i ddydd, ond trwy ddulliau gwahanol.

Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru wedi golygu bod hyrwyddo'r iaith wedi cael ei gyfyngu i gynnwys ar-lein yn unig, ac nid yw digwyddiadau a ddefnyddir fel arfer i hyrwyddo'r iaith Gymraeg wedi bod un bosibl ac mae hyn felly'n cael effaith negyddol ar y gallu i gynyddu proffil yr iaith yn lleol.

Er gwaethaf y cyfyngiadau, mae'r cyngor wedi llwyddo i sicrhau bod gwasanaethau, yn Gymraeg, yn cael eu cynnig a'u darparu ble roedd angen.

Polisi Arwyddion

Mae'r Cyngor yn annog datblygwyr eiddo i ddefnyddio enwau Gymraeg ar strydoedd newydd yn y fwrdeistref.

Yn ystod 2020/21, cyflwynwyd 7 o enwau strydoedd newydd drwy'r broses gynllunio.

Cymeradwywyd 6 (85.7%) gydag enwau Gymraeg. Mae hyn yn uwch na'r 50% a gytunwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac o ganlyniad i hyrwyddo gan yr adran gynllunio'n bennaf.

Nid yw'r Cyngor bellach yn cyfieithu enwau strydoedd presennol yn dilyn arweiniad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Y Defnydd o Gymraeg mewn Cyfarfodydd

Cynhaliwyd pob cyfarfod trwy Microsoft Teams, ac mae'r heriau o gynnig cyfieithu ar y pryd wedi dod yn fwy amlwg. Oherwydd pryderon diogelwch, mae'r Cyngor, ar ôl cyngor ei ddarparwr technoleg gwybodaeth, wedi dewis defnyddio platfform diogel Microsoft Teams.

Nid yw'r platfform yn cynnig ffrydiau clyw niferus ar hyn o bryd, ac mae angen hyn i'r cyfieithu ar y pryd weithio'n rhwydd. Mae Microsoft yn gweithio ar ateb, ond mae'n debygol y bydd peth amser yn mynd heibio cyn bod hyn ar gael.

Digwyddiadau Diwylliannol

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, llwyddodd y cyngor, gyda Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy i gynnig gŵyl ar-lein 'Torf-hwyl'. Perfformiodd nifer o artistiaid yn fyw yn ystod y dydd, ac roedd gweithgareddau i oedrannau gwahanol, a gwybodaeth am ddysgu Gymraeg. Roedd y Digwyddiad yn llwyddiant mawr gyda thrigolion Torfaen a thu hwnt yn cymryd golwg. Mae tudalen Facebook 'Torf-hwyl' [yma](#).

Datblygiad Polisi

Mae Uned yr Iaith Gymraeg bellach yn rhan o'r Asesiad Lles Integredig ar gyfer penderfyniadau polisi. Mae angen Asesiad Effaith Integredig sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg ar unrhyw newid a fydd yn effeithio ar bolisi'r cyngor neu'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i drigolion / grwpiau lleol / busnesau. Cyn cyflwyno unrhyw adroddiad i Aelodau, caiff yr adroddiad ei ddarllen i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol a negyddol wedi cael eu hystyried yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg